5 Mai 2020

I bob Canolfan sy'n cynnig, neu'n bwriadu cynnig, cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a/neu Gofal Plant yng Nghymru o fis Medi 2020.

Mae'r llythyr hwn yn cyfathrebu penderfyniad ar argaeledd cymwysterau lefel 3 yn y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant sy'n cael eu haddysgu ar raglenni dysgu o fis Medi 2020.

Rydym yn cydnabod yr heriau a'r amharu sylweddol sy'n parhau i gael eu hachosi i'r sector addysg a'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan COVID-19. Rydym hefyd yn ymwybodol bod colegau'n gweithio ar ganlyniadau'r effaith ar y flwyddyn academaidd hon a'r un pryd yn darparu cymorth pwysig iawn i'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag ymyriadau hyfforddi cyflym ar gyfer cynyddu'r gweithlu er mwyn rhoi cymorth i'r argyfwng iechyd cyhoeddus hwn.

Ar 9 Ebrill gwnaethom dderbyn llythyr gan ColegauCymru, yn gofyn i ni ohirio cyflwyno cymwysterau lefel 3 newydd yn y sector hwn, sydd i fod i gael eu haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2020, ac ymestyn dynodiad y cymwysterau presennol. Daeth y cais yn sgil yr amgylchiadau presennol, a'r ansicrwydd parhaus a wynebir gan ddarparwyr addysg a'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng nghyd-destun COVID-19.

Er mwyn ymateb, gwnaethom gynnal trafodaethau manwl gyda darparwyr addysgu, cyrff y sector a Chonsortiwm y cyrff dyfarnu er mwyn deall y cais ac effeithiau posibl unrhyw benderfyniad yn well.

Yn ystod y trafodaethau hyn dywedodd ColegauCymru eu bod eisiau diwygio'r cais gwreiddiol ac yn hytrach eisiau gofyn i ni ganiatáu i'r cymhwyster etifeddol gydredeg â chyflwyno'r cymwysterau newydd ym mis Medi, gan roi dewis o 'hen' neu 'newydd' i ganolfannau.

Cymwysterau Cymru
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysterauCymru.org

O ganlyniad i'r trafodaethau cynhwysfawr hyn rydym wedi penderfynu sut i ymateb i'r cais diwygiedig hwn. Wrth wneud y penderfyniad hwn rydym wedi ceisio cydbwyso gwahanol anghenion a dymuniadau'r prif randdeiliaid, gan gynnwys anghenion dysgwyr.

Rydym wedi ystyried pob cymhwyster yn unigol oherwydd y gwahanol amgylchiadau sy'n efffeithio ar bob un.

O ran cymhwyster *Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori (C00/1249/6)* ('CCPLD') CBAC, a chymwysterau *Lefel 3, TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (C00/3716/2) CBAC* a *Lefel 3, TAG Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (C00/1253/3) CBAC* ('y safon uwch newydd'), rydym wedi penderfynu y bydd y cymwysterau hyn yn cael eu haddysgu o fis Medi 2020 ac <u>na fyddwn</u> yn ymestyn dyddiad dynodiad y cymwysterau etifeddol.

Mae'r cymhwyster CCPLD wedi cael ei gymeradwyo'n llawn ac mae ar gael i ganolfannau ers yr hydref diwethaf ac mae'n ymgorffori'r un cynnwys â'r cymhwyster ymarfer sydd eisioes yn cael ei addysgu mewn dysgu seiliedig ar waith. Mae'n bwysig darparu cydraddoldeb gyda'r ddwy ymagwedd gan bod y ddau yn gymwysterau 'trwydded i ymarfer' ac o ran hyn rydym wedi cydbwyso'r farn a fynegwyd gan ein cydweithwyr Addysg Bellach a'r safbwyntiau a roddwyd gan randdeiliaid eraill.

Mae'r safon uwch flaenorol yn dilyn manyleb hen ffasiwn iawn ac rydym yn ymwybodol bod nifer fawr o ysgolion wedi bod yn paratoi i addysgu'r fanyleb newydd ers peth amser. Ni fyddai'n ymarferol i gydredeg y ddwy fanyleb. Yn ogysgal, efallai yr hoffai canolfannau sy'n cynnig y cymhwyster CCPLD newydd ddefnyddio'r cymhwyster safon uwch newydd i gyflawni cynnig sy'n cyfateb i dair safon uwch er mwyn rhoi cymorth i'r dysgwyr sydd eisiau symud ymlaen i addysg uwch.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y cymhwyster Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Egwyddorion a Chyd-destunau) newydd wedi cael ei gadarnhau a'i gymeradwyo lawer yn hwyrach nac y bwriadiadwyd. Er fod y manylebau ar gael ar-lein ers yr hydref, rydym yn sylweddoli bod nifer o ganolfannau'n aros am yr asesiadau sampl terfynol cyn eu bod yn teimlo'n ddigon hyderus i ddechrau ar y paratoadau. Rydym hefyd yn ymwybodol bod staff mewn nifer o ganolfannau wedi cael eu tynnu oddi ar ddyletswyddau dysgu, addysgu a chynllunio er mwyn darparu cymorth mwy ymarferol yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y cyfnod heriol hwn.

Felly, ein penderfyniad ynglŷn â chymhwyster *Lefel 3 Tystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (C00/3725/4) CBAC* a *Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau CBAC (C00/1253/2)* yw, er y byddant ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2020, byddwn hefyd yn ymestyn dynodiad y cymwysterau BTEC canlynol am flwyddyn:

Pearson BTEC Lefel 3 Tystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol 500/9316/2
Pearson BTEC Lefel 3 Diploma Cyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol 500/9317/4
Pearson BTEC Lefel 3 Diploma 90-credyd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol 600/6178/9

Pearson BTEC Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol 500/9465/8
Pearson BTEC Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol 500/9501/8

Mae hyn yn golygu y caiff canolfannau ddewis cynnig yr hen gymwysterau, y cymwysterau newydd, neu gyfuniad o'r ddau.

Fodd bynnag, rydym yn *annog canolfannau yn daer* i ddewis, pan fo'n bosibl, y cymwysterau newydd fydd yn rhoi gwell sail i ddysgwyr symud ymlaen at gyflogaeth neu addysg uwch. Mae'r gyfres o gymwysterau newydd wedi cael ei cynllunio fel pecyn, a byddai dewis cynnig y cymwysterau newydd yn golygu bod y cymhwyster Craidd yn cael ei ddarparu'n effeithiol. Ar un llaw, mae dysgwyr sydd eisoes wedi astudio ar gyfer cymwysterau lefel 2 yn y gyfres newydd yn debygol o fod o dan anfantais os fyddant yn newid i hen gymhwyster ac mae'n debygol y bydd angen i ymgeiswyr sy'n dechrau'n syth ar lefel 3, nad ydynt yn cymryd y cymhwyster Craidd, ei gymryd wrth iddynt ddechrau gweithio.

Er mwyn ategu ein hanogaeth gref i ganolfannau gymryd y cymhwyster newydd, rydym wrthi'n archwilio – gyda chyrff y sector a Chonsortiwm y cyrff dyfarnu – sut y gellir gwella a chynyddu'r cymorth sy'n cael ei roi i ganolfannau wrth iddynt baratoi i gynnig y cymwysterau newydd. Ymysg yr ystyriaethau mae'r graddau y gellir darparu cymorth ychwanegol ar gyfer canolfannau unigol ac adnoddau dysgu ac addysgu pellach er mwyn gwneud yr wythnosau cyntaf o addysgu'n haws. Byddwn ni, a'r Consortiwn, yn darparu gwybodaeth bellach ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae gwneud y penderfyniadau hyn wedi bod yn anodd wrth i ni geisio cydbwyso anghenion a heriau pawb sydd ynghlwm â nhw. Gobeithio bod y cyfaddawd hwn o gymorth a bod y canolfannau'n deall y rhesymeg dros ddefnyddio ymagwedd wahanol ar gyfer y gwahanol gymwysterau o fewn y gyfres.

Yr eiddoch yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr